

## Cynnig i sefydlu ysgol pob oed newydd yn Llanfyllin

### Sut y gallwch roi gwybod i ni beth yw eich barn am ein cynlluniau?

Rydym o ddifrif eisiau clywed gennych. Gallwch gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:

- **Drwy e-bostio:** [school.consultation@powys.gov.uk](mailto:school.consultation@powys.gov.uk)

- **Drwy ysgrifennu atom:**

Tim Trawsnewid Ysgolion,  
Cyngor Sir Powys,  
Neuadd y Sir,  
Llandrindod,  
Powys,  
LD1 5LG

- **Drwy lenwi'r holiadur ar-lein ar ein gwefan:**

<https://cwsmer.powys.gov.uk/article/5275/Ysgol-GG-Llanfyllin-ac-Ysgol-Uwchradd-Llanfyllin>

**Mae angen i chi roi gwybod i ni beth yw eich barn erbyn  
31 Ionawr 2019**

**Dogfen Ymgynghori**  
Disgyblion cynradd

## Cynnig i sefydlu ysgol pob oed newydd yn Llanfyllin

### Beth sy'n digwydd?

Cyngor Sir Powys yw'r corff sy'n penderfynu sut y mae addysg yn cael ei threfnu a'i darparu ym Mhowys. Mae'r Cyngor eisiau gwneud yn siŵr bod gan bob plentyn a pherson ifanc yn y Sir gyfle i fynd i ysgolion sy'n rhoi'r cyfleoedd gorau posib ar ôl iddynt dyfu'n oedolion.

Ar hyn o bryd, mae dwy ysgol yn Llanfyllin—Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Mae'r Cyngor yn meddwl tybed a fyddai'n well uno'r ysgolion hyn a chreu un ysgol newydd pob oed i ddarparu addysg i ddisgyblion 4-18 oed.

Byddai hyn yn golygu y byddai'r holl ddisgyblion yn nhref Llanfyllin yn rhan o un ysgol wedi'i lleoli ar safleoedd presennol y ddwy ysgol sydd ar wahân.

Byddai disgyblion sy'n mynd i ysgolion cynradd eraill yn ardal Llanfyllin hefyd yn gallu ymuno â'r ysgol newydd ym mlwyddyn 7.

**Dogfen Ymgynghori**  
Disgyblion cynradd

## Cynnig i sefydlu ysgol pob oed newydd yn Llanfyllin

### Pam fod hyn yn digwydd?

Mae'r Cyngor yn meddwl am y ffordd y mae addysg yn cael ei darparu yn Llanfyllin oherwydd:

- Mae nifer y disgyblion yn gostwng, yn enwedig yn yr ysgol uwchradd
- Mae angen gwella'r addysg sy'n cael ei ddarparu
- Nid oes pennaeth parhaol yn y sector cynradd

### Beth fyddai'n newid?

Byddai'r holl ddisgyblion yn Llanfyllin yn rhan o un ysgol yn lle bod yn rhan o ddwy ysgol ar wahân. Byddai hyn yn golygu dim ond un pennaeth.

Fodd bynnag, byddai disgyblion yn dal i fynd i'r ysgol yn yr un adeilad ag y maen nhw'n mynd iddo'n barod—disgyblion hyd at flwyddyn 6 i safle presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin, a disgyblion o flwyddyn 7 ymlaen i safle presennol Ysgol Uwchradd Llanfyllin.

Byddai disgyblion sy'n mynd i ysgolion cynradd eraill yn nalgylch Llanfyllin yn dal i fod yn gallu mynd i'r ysgol newydd ym mlwyddyn 7 wrth symud i'r sector uwchradd.

**Dogfen Ymgynghori**  
Disgyblion cynradd

## Cynnig i sefydlu ysgol pob oed newydd yn Llanfyllin

### Beth fydd yn digwydd nesaf?

Dim ond syniad yw hyn ar y funud, ac nid oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud. Mae'r Cyngor eisiau gwybod beth mae pobl yn ei feddwl o'r syniad hwn. Bydd y Cyngor yn darllen yr holl sylwadau sy'n cael eu hanfon i mewn ac yn penderfynu symud ymlaen gyda'r syniad neu beidio.

Os bydd y Cyngor yn penderfynu symud ymlaen, bydd yn cyhoeddi rhywbeth o'r enw 'Rhybudd Statudol' i ddweud ei fod eisiau cau'r ddwy ysgol ac agor un newydd. Bydd cyfle arall wedyn i bobl ddweud y Cyngor os ydynt yn anghytuno efo'r bwriad i wneud hyn. Wedyn, bydd y Cyngor yn gwneud penderfyniad terfynol ynglŷn ag a ddylid agor un ysgol newydd neu beidio.

### Eisiau gwybod mwy?

Mae dogfen fwy manwl wedi'i baratoi i rieni ac athrawon.

Os hoffech ei gweld, mae'r ddogfen ar gael ar ein gwefan:

<https://cwsmer.powys.gov.uk/article/5275/Ysgol-GG-Llanfyllin-ac-Ysgol-Uwchradd-Llanfyllin>

**Dogfen Ymgynghori**  
Disgyblion cynradd